

Teitl y Rôl: Cynorthwy-ydd Arlwyo

CYFATHREBU

Cyfathrebu Llafar:

Derbyn, deall a throsgwlyddo gwybodaeth uniongyrchol mewn dull clir a chywir yn aml.

Cyfathrebu ysgrifenedig neu electronig a chyfryngau gweledol:

Derbyn, deall a throsgwlyddo gwybodaeth uniongyrchol mewn dull clir a chywir yn achlysurol.

GWAITH TÎM A CHYMHELLIANT

Prif Ffocws

Cyfranogi a chyflwyno cyfraniad i dîm.

CYSWLLT A RHWYDWEITHIO

Cysylltu yn ddyddiol gan ddefnyddio gweithdrefnau sy'n bodoli er mwyn trosglwyddo gwybodaeth yn ddiymdroi; sicrhau bod pobl yn derbyn gwybodaeth er mwyn sicrhau cyd-drefnu ymdrech a chyflawni'r gwaith yn effeithlon

DARPARU GWASANAETH

Prif Ffocws

Delio â chysylltiadau mewnol neu allanol sy'n gofyn am wasanaeth neu sy'n ceisio gwybodaeth; creu delwedd gadarnhaol o'r sefydliad drwy fod yn ymatebol ac yn gyflym wrth ymateb i geisiadau a chyfeirio'r defnyddiwr at y person cywir os oes angen. Y cwsmer sydd fel arfer yn cychwyn y cyswllt, ac yw fel arfer yn cynnwys tasgau rheolaidd sydd â safonau neu weithdrefnau gosodedig.

PROSESAU A CHANLYNIADAU PENDERFYNU

Gwneud penderfyniadau annibynnol sydd â dylanwad uniongyrchol, gellir eu newid yn hawdd ac sydd ag ychydig effaith tu hwnt i man gwaith uniongyrchol deilydd y swydd

Bod â rhan mewn rhai penderfyniadau cydweithredol; gweithio gydag eraill i gyrraedd y canlyniad gorau sydd â dylanwad uniongyrchol, gellir eu newid yn hawdd ac sydd ag ychydig effaith tu hwnt i man gwaith uniongyrchol deilydd y swydd

CYNLLUNIO A THREFNU ADNODDAU

Cynllunio, blaenoriaethu a threfnu gwaith neu adnoddau ei hun i gyflawni amcanion a gytunwyd.

MENTER A DATRYS PROBLEMAU

Prif Ffocws

Datrays problemau syml dydd-i-ddydd wrth iddynt godi; dewis rhwng nifer cyfyngedig o opsiynau sydd â chanlyniadau clir, drwy ddilyn canllawiau neu gyfeirio at yr hyn sydd wedi cael ei wneud yn flaenorol; a gwybod pryd y dylid cyfeirio problem at bobl eraill.

DADANSODDI AC YMCHWIL

Prif Ffocws

Sefydlu ffeithiau sylfaenol mewn sefyllfaoedd sydd yn gofyn am ragor o ymchwil a hysbysu eraill os oes angen.

GOFYNION SYNHWYRAIDD A CHORFFOROL

Ymgymryd â thasgau ar lefel a fyddai'n gofyn naill ai am ddysgu rhai dulliau penodol neu a fyddai'n cynnwys ymdrech corfforol cymedrol.

AMGYLCHEDD GWAITH

Gofynion Goblygiedig

Gweithio mewn amgylchedd sy'n gymharol sefydlog ac nad yw'n effeithio llawer ar ddeilydd y swydd na'r ffordd y mae'r gwaith yn cael ei gwblhau.

Prif Ffocws

Deall sut y gallai'r amgylchedd gwaith gael effaith ar ei (g)waith ei hun neu waith cydweithwyr; cymryd camau safonol, o fewn canllawiau iechyd a diogelwch lle bo'n gymwys, i addasu i'r amgylchedd.

GOFAL A LLES BUGEILIOL

Yn achlysurol dangos sensitifrwydd i'r rheiny y gall fod angen help arnynt, neu mewn achosion eithafol, sy'n dangos arwyddion o drallod amlwg; a chymryd camau priodol drwy gysylltu â'r bobl berthnasol.

DATBLYGU TÎM

(Dylid cynnwys hyfforddi'r rhai ty allan i'r tim dan Gefnogaeth Dysgu ag Addysgu)

O bryd yw gilydd cynghori neu arwain dechreuwyr newydd yn gweithio yn yr un rôl neu uned ar wybodaeth neu weithdrefnau safonol.

CEFNOGAETH ADDYSGU A DYSGU

Ddim yn gofyniad ar gyfer y swydd.

GWYBODAETH A PHROFIAD

Bod yn ymwybodol o egwyddorion ac arferion sylfaenol; bod â dealltwriaeth o'r systemau a'r gweithdrefnau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ei (g)waith ei hun a chael ei (g)oruchwyllo neu weithio'n agos â chydweithwyr y gall troi atynt am gymorth.